Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Y Cabinet |
| **Dyddiad** | Chwefror 18 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Awdur yr adroddiad** | Robyn Lovelock (Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni) |
| **Testun y Briff** | Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych – Adroddiad Ac Ymateb |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Yr adroddiad terfynol ynghylch Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych, datganiadau ymatebol drafft a Chynllun Gweithredu drafft yn ymateb i'r argymhellion. Yn ogystal â'r newidiadau a argymhellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2025.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu'r Adroddiad ynghylch yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1) i'r Cabinet ynghyd â'r datganiadau ymatebol (Adrannau 4.6 a 4.7), y Cynllun Gweithredu (Atodiad 2) sy'n pennu'r ymateb i'r argymhellion yn yr Adroddiad ac argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (22 Ionawr 2025) bod y Cabinet yn adolygu ac ystyried yr adroddiad ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn nodi a chroesawu'r Adroddiad ynghylch yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1).

3.2 Bod y Cabinet yn adolygu a chymeradwyo'r datganiadau statudol (Adrannau 4.7 a 4.8) y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu gwneud mewn ymateb i'r Adroddiad a'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd fel y'u nodir yn y 'Cynllun Gweithredu' (Atodiad 2) ac wrth wneud hynny, adolygu a chymeradwyo'r ymateb i'r argymhellion ar gyfer newid a wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Ionawr (Atodiad 3).

3.3 Cynnwys unrhyw ddiwygiadau y dymuna'r Cabinet eu gwneud wrth ymdrin ag argymhelliad 3.2 i gymeradwyo bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiadau a'r Cynllun Gweithredu (20 Chwefror).

## 4. Manylion yr adroddiad

**Ynglŷn â'r Asesiad Perfformiad Panel**

4.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'n rhaid i brif Gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod Panel a benodwyd gan y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion o ran perfformiad o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredinol olynol (mis Mai 2022 a'r un a ragwelir ym mis Mai 2027); hynny yw, unwaith yn ystod tymor pob Cyngor Sir.

4.2 Yn ogystal â chyflawni gofyniad statudol, gall Asesiad Perfformiad Panel effeithiol nodi siwrnai gwella'r Cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad blynyddol, i'w gefnogi i edrych at y dyfodol o safbwynt gwahanol. Mae'r Asesiad Perfformiad Panel wedi rhoi cyfle i brofi meddylfryd, gyda chymheiriaid arbenigol diduedd, sy'n darparu safbwyntiau gwahanol drwy herio annibynnol, gwrthrychol wrth wneud eu hargymhellion.

4.3 Cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'r Asesiad Perfformiad Panel ar ran Cyngor Sir Ddinbych rhwng 9 a 12 Medi 2024 – yr Asesiad Perfformiad Panel cyntaf yng Nghymru. Adolygwyd yr adroddiad drafft er cywirdeb gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain a derbyniodd y Panel bob awgrym ynglŷn â diwygiadau. Mae'r adroddiad

hwn yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae'n nodi naw o argymhellion ar gyfer gwelliant ac wyth o feysydd o gryfder ac arloesedd.

4.4 Wrth ymateb i'r adroddiad ynghylch yr Asesiad Perfformiad Panel, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu ein bod yn nodi:

- I ba raddau rydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
- I ba raddau mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion yn yr adroddiad
- Unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r gofynion perfformiad yn well (Cynllun Gweithredu).

**Newidiadau y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n eu hargymell**

Bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ystyried yr adroddiad ynghylch yr Asesiad Perfformiad Panel, y datganiadau ymatebol drafft a'r Cynllun Gweithredu drafft yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2025, yn unol â'i ddyletswydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i adolygu'r dogfennau dan sylw a gwneud argymhellion ynghylch y datganiadau a'r cynllun gweithredu fel y gwêl yn briodol.

4.6 Fe wnaeth y Pwyllgor un ar ddeg o argymhellion ar gyfer diwygio. Mae'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bod y Cabinet yn ystyried pob un o'r argymhellion hynny yn ei dro a phenderfynu ei dderbyn neu beidio. Os na dderbynnir argymhelliad, mae'n rhaid i'r Cabinet roi sail resymegol ar gyfer hynny. Mae Atodiad 3 yn cynnwys yr argymhellion ar gyfer diwygio a'r modd yr awgrymir y dylai'r Cabinet ymateb i'r newidiadau hynny.

**Datganiadau Ymatebol Statudol**

4.7 Dyma'r datganiad ynghylch "I ba raddau y mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad" wedi'i ddiwygio'n unol ag argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

*"Mae'r Cyngor yn croesawu ac yn derbyn yr adroddiad a'i gasgliadau. Mae'n nodi y bu'r asesiad yn broses ddefnyddiol ac mae'n gwerthfawrogi mor feddylgar a thrylwyr y bu'r tîm Asesu. Ar gyfer Asesiadau'r dyfodol, byddem yn falch o weld mwy o sôn yn yr adroddiad terfynol am y dystiolaeth a welwyd sydd wedi arwain at bob argymhelliad. Sylw cyffredinol, sy'n adlewyrchu ar draws nifer o'n hymatebion yn y Cynllun Gweithredu, yw yr hoffem fod wedi gweld mwy o bwyslais yn y broses a'r adroddiad ar y modd rydym yn hybu lles a*

*chadernid y gymuned a'r Cyngor ar gyfer heriau a ragwelir, yn unol â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio."*

Dyma'r datganiad ynghylch "*i ba raddau y mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion yn yr adroddiad*" (sylwer na roes y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unrhyw argymhellion ar gyfer diwygio'r datganiad hwn):

*"Mae'r Cyngor yn derbyn yr holl argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel ac wedi rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni pob argymhelliad. Dylid nodi y cynhaliwyd yr Asesiad hwn ar adeg benodol a bod cynnydd eisoes wedi digwydd yn gyflym mewn rhai meysydd, gan gynnwys blaenoriaethu'r gwaith trawsnewid."*

**Cynllun gweithredu**

4.8 Mae'r camau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i ymateb i argymhelliad yr Adroddiad wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu drafft (Atodiad 2). Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi'i ddiwygio'n unol ag argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y'u nodir yn Atodiad 3.

4.9 Ychwanegir y camau gweithredu at System Rheoli Perfformiad y Cyngor a bydd y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei Gynnal yn Dda ac sy'n Uchel ei Berfformiad yn derbyn adroddiadau yn eu cylch bob tri mis. Cyflwynir adroddiad ynglŷn â'r cynnydd wrth gyflawni'r argymhellion bob chwe mis i'r Pwyllgorau, a bydd sôn am hynny yn ein hunanasesiad blynyddol hefyd, yn unol â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd yr Asesiad Perfformiad Panel yn brawf ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogaethau'r Cyngor. Bydd y gwaith yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun thema'r Cynllun Corfforaethol, sef bod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi cynnal yr Asesiad Perfformiad Panel a'i ariannu. Defnyddiwyd cyllidebau presennol i dalu am amser staff mewnol ac ychydig iawn o wariant ar offer swyddfa a lluniaeth ac fe'u darparwyd heb fod angen staff ychwanegol.

## **7.** Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Lluniwyd y ddogfen gwmpasu, gan gynnwys y meysydd y gofynnwyd inni ganolbwyntio arnynt, rhwng mis Mai a mis Mehefin 2024 gyda chyfraniad gan yr Uwch Dîm Arwain, y Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad (6 Mehefin 2024 – Eitem 9), y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (12 Mehefin 2024 – Eitem 7) a'r Cyngor Sir (9 Gorffennaf 2024 – Eitem 6), ynghyd â hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad rhwng 2023 a 2024.

8.2 Adolygwyd adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel ar ffurf drafft er cywirdeb gan yr Uwch Dîm Arwain (17 Hydref 2024) ac yn sesiwn Briffio'r Cabinet (4 Tachwedd 2024). Trafodwyd canfyddiadau'r adroddiad hefyd yng Nghynhadledd Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ddinbych (3 Rhagfyr 2024), y Tîm Gweithredol Corfforaethol (16 Rhagfyr), sesiwn Briffio'r Cabinet (6 Ionawr), Gweithdy i'r Cyngor (14 Ionawr) ac yn y Cyngor Staff (15 Ionawr), er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y datganiadau statudol drafft a'r cynllun gweithredu.

8.4 Bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ystyried yr adroddiad a'r ymatebion ar 22 Ionawr ac fe luniodd argymhellion ar gyfer diwygio, gan gyflawni ei ddyletswydd statudol drwy hynny. Wedi i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried yr adroddiad, yr ymatebion a'r cynllun gweithredu ar 18 ac 20 Chwefror, bydd yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r ymateb terfynol ar ein gwefan a'i anfon i: Aelodau'r panel, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Gweinidogion Cymru.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gyda’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rhan 6, Perfformiad a Threfniadau Llywodraethu Prif Gynghorau a Chydbwyllgorau Corfforedig (Adrannau 92, 93, 94 a 108).